

Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

O Gynhwysiant i Wydnwch

Agenda ar gyfer cynhwysiant digidol



Cynnwys

Amdanom ni	2
Pam fod cynhwysiant digidol yn bwysig i Gymru	3
Blaenoriaeth 1: Ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob sector	5
Blaenoriaeth 2: Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	7
Blaenoriaeth 3: Mynd i'r afael â thlodi data fel mater allweddol	9
Blaenoriaeth 4: Blaenoriaethu sgiliau digidol yn yr economi ar ôl Covid	11
Blaenoriaeth 5: Gosod safon byw digidol gofynnol newydd a mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu	12
Atodiad: Aelodau presennol Cynghair Cynhwysiant Digidol Cymru	13
Cyfeiriadau	14



Amdanom ni

Mae Cynghrais Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW) yn grŵp ymbarél o sefydliadau sydd wedi ymrwymo i gymryd camau ar y cyd i newid yn sylweddol yr agenda cynhwysiant digidol yng Nghymru. Rydym yn rhwydwaith agored, anffurfiol o unigolion a sefydliadau sydd ag ymrwymiad cadarn i gyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb.

Crëwyd Cynghrais Cynhwysiant Digidol Cymru fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a ddarperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.


Rydym yn gwybod na all un rhaglen llywodraeth gyflawni popeth y mae angen ei wneud er mwyn cyrraedd pawb sydd angen cymorth cynhwysiant digidol yng Nghymru. Mae angen dybryd i'r cyfrifoldeb dros gynhwysiant digidol gael ei amlygu fel blaenoriaeth i bob sefydliad sy'n gweithio gyda'r cyhoedd drwy sianeli digidol. Ein nod, felly, yw creu mudiad deinamig ledled Cymru, lle gall yr holl randdeiliaid allweddol ddod at ei gilydd o dan un faner: *Cynghrais Cynhwysiant Digidol Cymru*.

Rydym eisiau cydweithio ar draws pob sector i wella bywydau rhai o'n dinasyddion mwyaf bregus a difreintiedig. Bydd gan y penderfyniadau a wnawn fel cenedl wrth i ni ailadeiladu ac adfer Cymru yn dilyn pandemig Covid-19 oblygiadau hirdymor i'n cymunedau a'r bobl sy'n byw ynddyn nhw.

Yn y papur byr hwn, rydym yn nodi ein hagenda i wneud cynnydd ar y mater pwysig a brys hwn. Rydym ni wedi nodi pum maes blaenoriaeth lle gellir gwneud gwahaniaeth gwirioneddol fel y gall pawb yng Nghymru, y mae angen iddyn nhw ac sydd eisiau gwneud hynny, gael mynediad at y rhyngryd a thechnoleg ddigidol a chael budd ohono. Rydym wedi amlinellu'r canlyniadau allweddol rydym eisiau eu gweld ar gyfer pob blaenoriaeth.

Gobeithiwn y byddwch yn rhannu ein huchelgais a, pha sector bynnag rydych chi ynndo, y byddwch yn ystyried sut y gallwch chi a'ch sefydliad chwarae rhan yn y gwaith o wneud Cymru'n esiampl o ran cynhwysiant digidol.

Yr Athro Hamish Laing
Cadeirydd: Cynghrais Cynhwysiant Digidol
@DIAW



Pam fod cynhwysiant digidol yn bwysig i Gymru

Er bod y rhyngwrwd wedi bod gyda ni ers 30 mlynedd, mae twf gweithgarwch ar-lein dyddiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddramatig. O siopa i fancio, o ddysgu i gymdeithasu – i lawer ohonom, digidol yw'r ffordd naturiol erbyn hyn.

Drwy gydol argyfwng Covid-19, mae gwasanaethau bob dydd a hanfodol wedi symud ar-lein, ac mae mwy o bobl wedi bod angen dod yn fwy gweithgar yn y byd ar-lein. Mae Covid-19 hefyd wedi amlygu rhaniadau digidol dwfn yng Nghymru ymhellach ac wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol. Mae llawer o blant a phobl ifanc nad ydynt wedi gallu cael mynediad at ddysgu ar-lein, mae cleifion nad ydynt wedi gallu cymryd rhan mewn ymgynghoriadau fideo, mae perthnasau nad ydynt wedi gallu cysylltu ag anwyliaid sydd wedi'u hynysu mewn ysbytai neu gartrefi gofal... mae'r rhestr yn hirfaith.

Y pedwar prif rwystr i gyfranogiad yw cost (data yn ogystal â dyfeisiau), cysylltedd, cymhelliant a sgiliau.

Wrth i'n hangen am fynediad fforddiadwy, diogel a dibynadwy i'r rhyngwrwd dyfu er mwyn cymryd rhan mewn bywyd bob dydd, mae'r angen mynd i'r afael ag allgáu digidol mewn ffordd ystyrlon a chyfannol yn dod yn fater mwy brys. Mae'r rhai sy'n cael eu 'gadael ar ôl' yn syrthio ymhellach ar ei hôl hi ac mae Covid-19 wedi amlygu anghydraddoldebau digidol. Mae mynd i'r afael â hyn yn hanfodol ar gyfer cymdeithas gyfartal a theg ac mae'n gofyn am ymyrraeth, darparu adnoddau a blaenoriaethu parhaus. Rhaid i Gymru wynebu'r her nawr.

Y cyd-destun

Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru fod 90% o oedolion (16 oed a throsodd) wedi dweud eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwd yn bersonol yn 2019/20.¹ Mae hyn wedi cynyddu o 77% yn 2012/13 ond nid yw'n cyrraedd y man sydd angen i Gymru fod fel cenedl ddigidol gynhwysol.

Mae cynhwysiant digidol yn golygu gallu cael mynediad i'r rhyngwrwd a'i defnyddio ac ymgysylltu â thechnoleg ddigidol, yn hyderus ac yn ddiogel, yn ôl yr angen neu pan fo eisiau. Mae'r rhain yn ofynion sylfaenol er mwyn i bobl gymryd rhan mewn cymdeithas ac economi ddigidol. Y pedwar prif rwystr i gyfranogiad yw cost (data yn ogystal â dyfeisiau), cysylltedd, cymhelliant a sgiliau. Mae pryderon am ddiogelwch ar-lein - a ddim yn gwybod ble i ddechrau neu ble i gael help - hefyd yn rhwystrau sydd angen eu goresgyn.



¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20

Mae rhai pobl yn ein cymunedau yn llawer mwy tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol nag eraill. Rydym yn gwybod bod oedran hŷn, incwm isel a chyrhaeddiad addysgol isel i gyd yn cyd-fynd yn agos ag allgáu digidol, anfantais gymdeithasol, ac anghydraddoldebau iechyd.²

Adroddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod dwy ran o dair o bobl dros 16 oed yng Nghymru wedi defnyddio technoleg ddigidol i helpu eu hiechyd yn 2019.³ Er bod 87% o bobl ifanc 16-29 oed wedi dweud eu bod wedi defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer eu hiechyd, roedd hyn yn gostwng i ddim ond 24% o'r rhai 70 oed a hŷn.⁴ Dim ond 51% o bobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd yn defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer eu hiechyd, o'i gymharu ag 84% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.⁵ Ac er bod 10% o'r cyhoedd yng Nghymru yn dweud nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrdd mae hyn yn codi i 18% i'r rhai sydd â salwch, anabled neu lesgedd hirdymor cyfyngol.

Wrth i fwy o wasanaethau hanfodol symud ar-lein (rhai'n gyflym iawn ers dechrau pandemig Covid-19) ni fu'r angen i Gymru wella ei lefelau cynhwysiant digidol erioed yn bwysicach.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei 'Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus', gan amlinellu ei meysydd ffocws ar gyfer y 12 mis nesaf, cyn cyhoeddi ei Fframwaith Strategol nesaf yn ystod Gaeaf 2021. Rydym yn falch o weld ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gynhwysiant digidol a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â'r broses ymgynghori ar gyfer y fframwaith hwn.

Yn y papur hwn rydym yn nodi *pum maes blaenoriaeth* y bydd Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru yn eu blaenoriaethu ac yn gofyn i eraill wneud yr un fath, wrth i ni ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws pob sector yng Nghymru er mwyn gwella cynhwysiant a hyder digidol ein dinasyddion:

Blaenoriaeth 1	Ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob sector
Blaenoriaeth 2	Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
Blaenoriaeth 3	Mynd i'r afael â thlodi data fel mater allweddol
Blaenoriaeth 4	Blaenoriaethu sgiliau digidol yn yr economi ar ôl Covid
Blaenoriaeth 5	Gosod safon byw digidol gofynnol newydd a mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu

² Ofcom 2020, Good Things Foundation (2020b)

³ Mae hyn yn golygu defnyddio technoleg ddigidol i ddod o hyd i wybodaeth am iechyd yn gyffredinol, gwasanaethau iechyd, neu weithgareddau i helpu iechyd, neu ar gyfer hunan-ddiagnosis, tracio nodau iechyd personol, rheoli cyflwr hirdymor, gwneud apwyntiad gofal iechyd, dod o hyd i gymorth emosiynol ar-lein, rheoli meddyginaeth neu ychwanegolion eraill.

⁴ Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019

⁵ Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019

Blaenoriaeth 1**Ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob sector**

Mae'r Gynghair am weld diwedd ar allgáu digidol yng Nghymru. Rydym yn cydnabod ei bod yn afrealistig disgwyl i 100% o'n dinasyddion fod ar-lein – bydd rhai pobl yn dewis peidio ag ymgysylltu â thechnoleg ddigidol a'r rhyngwrdd am amrywiaeth o resymau ac ni fyddan nhw byth ar-lein. Yr hyn rydym yn ei olygu wrth roi diwedd ar allgáu digidol yw i Gymru gyrraedd sefyllfa lle gall pawb sydd eisiau neu sydd angen gael mynediad hyderus i'r rhyngwrdd a thechnoleg ddigidol - gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion mynediad ychwanegol.


Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i bob sector ledled Cymru wneud ymdrech ar y cyd. Mae'r Gynghair yn ceisio gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei brif ffrydio ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Byddwn yn ceisio cydweithio â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru i osod cynhwysiant digidol fel blaenoriaeth drawsbynciol i bob maes - gan gynnwys mentrau gwrthdlodi a llesiant cenedlaethol.

Mae cynhwysiant digidol yn hanfodol i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol sydd wedi'u hymgorffori yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* - yn arbennig, ar gyfer Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn ac iachach. Byddwn yn ceisio annog Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried pennu amcanion penodol ar gyfer cynhwysiant digidol.

Rydym yn falch o weld sefydlu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a'i bod yn darparu cymorth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n gynnar o hyd, ond gobeithiwn weld gwaith y Ganolfan yn dwyn ffrwyth ac yn helpu sefydliadau i ddatblygu eu darpariaeth gwasanaeth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Rydym hefyd yn croesawu penodi Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol a swydd debyg yn cael ei chynnig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ond mae'n rhaid i'r holl fentrau hyn fod â chynhwysiant digidol yn sail iddynt. Os oes unrhyw wasanaethau'n mynd i weithio, yna rhaid iddyn nhw fod ar gael i bawb, gan gynnwys y defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus. Mae hon yn her sylweddol a chymhleth i sefydliadau ac mae'n hanfodol bod ymchwil, dysgu ac arloesi parhaus yn elfen allweddol o'r holl gynllunio a darparu. Mae'n hanfodol deall anghenion y defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus sy'n amrywiol ac yn newid yn barhaus, ac mae dealltwriaeth lawn o'r hyn y mae'n ei olygu i gael eich allgáu'n ddigidol yn dyngedfennol.





Dylai pob achos busnes dros fuddsoddi digidol yn y sector cyhoeddus gynnwys datganiad clir o sut y caiff cynhwysiant digidol ei gefnogi, a sut y bydd dylunio a gwerthuso gwasanaethau yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth - gan gynnwys defnyddwyr sydd â sgiliau digidol isel neu gyfyngedig.

Nid gwaith i'r llywodraeth yn unig yw cynhwysiant digidol. Mae llawer iawn eisoes wedi'i gyflawni drwy raglenni Cymunedau Digidol Cymru Llywodraeth Cymru a mentrau cynhwysiant digidol lleol eraill ledled Cymru. Rydym eisiau i'r cynnydd hwn gael ei ddatblygu a'i ymestyn y tu hwnt i raglenni a phrosiectau unigol - gan gymhwyso'r dysgu, y sgiliau a'r profiad i'r cyd-destun ôl-Covid-19 newydd y byddwn yn byw ynddo. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol ac eraill sy'n cefnogi sefydliadau cymunedol, llyfrgelloedd ac eraill yn y sector gwirfoddol, i ymateb i anghenion cymunedol am gynhwysiant digidol.⁶ Mae hefyd yn golygu bod y sector preifat yn ymrwmo ac yn buddsoddi mewn mentrau cynhwysiant digidol ochr yn ochr â datblygu cynhyrchion a gwasanaethau digidol newydd.

Drwy bartneriaeth o gyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad rydym yn credu, er enghraifft, y gall darparwyr cyfathrebu weithio gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ehangu'r mentrau cynhwysiant digidol y maen nhw wedi ymgymryd â hwy a gwthio'r ffiniau ymhellach. O rannu data i gynigion cost isel, gall darparwyr cyfathrebu hyrwyddo a darparu atebion posibl i rai darnau o'r jig-so allgáu digidol yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried arwain y gwaith o greu'r amodau ar gyfer newid drwy hyrwyddo rôl y sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol mewn cynhwysiant digidol fel darparwyr nwyddau, gwasanaethau, atebion a chymorth cymunedol. Mae'n gofyn am ddull rhagweithiol gan bob sector, gan gydweithio, i wneud ymdrech gydgyssylltiedig, ar y cyd i fynd i'r afael â'r lefelau ystyfnig o allgáu digidol sy'n parhau.

Canlyniadau Allweddol

- Cynllun cyflawni mentrus gan Lywodraeth Cymru gyda map clir ar gyfer rhoi terfyn ar allgáu digidol yng Nghymru.
- Targedau penodol ar gyfer cynhwysiant digidol ym mhob un o'r saith Nod Llesiant cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a staff yn ddigidol fel elfen greiddiol o holl brosiectau trawsnewid digidol y sector cyhoeddus.
- Camau pellach i fynd i'r afael ag allgáu digidol ar draws y sector preifat – yn enwedig gan ddarparwyr cyfathrebu.

Blaenoriaeth 2


Prif ffrydio cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Mae rôl technoleg ddigidol yn ein GIG ac ym maes iechyd y cyhoedd wedi bod yn tyfu ers blynnyddoedd. Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol yn creu gwasanaethau 'digidol yn gyntaf' ac yn mabwysiadu atebion digidol i wella iechyd a llesiant.⁷ Yn 2021, bydd llwyfan newydd - Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd - yn cael ei lansio. Mae Covid-19 wedi cyflymu'r trawsnewid hwn.

Ar 50^{fed} pen-blwydd ei ddisgrifiad gwreiddiol,⁸ rhaid i ni osgoi creu "Cyfraith Gofal Gwrthdro" ddigidol yng Nghymru - gan adael y rhai a allai elwa fwyaf o fodelau gofal newydd ar ôl.⁹ Mae mynediad, sgiliau a hyder digidol bellach yn cael ei gydnabod fel penderfynydd cymdeithasol iechyd¹⁰ ac os caiff ei weithredu'n feddylgar, gall dulliau digidol helpu i gau bwlch anghydraddoldeb iechyd. Heb fynd i'r afael â chynhwysiant digidol, mae perygl iddyn nhw waethygu'r gwahaniaeth cynyddol mewn canlyniadau iechyd i'n cymunedau.

Rydym yn ceisio cefnogi Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru i weithredu'r argymhellion a wnaed yn *Cynhwysiant Digidol mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru*¹¹ a *Gadael Neb Ar Ôl*¹² - adroddiad pwysig gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Bydd gweithredu'r rhain yn gwella bywydau pobl, yn arbed amser a chostau, ac yn cefnogi iechyd a gofal mwy effeithiol.

Mae'r pandemig hefyd wedi ein dysgu bod cysylltedd ein cartrefi yn cael effaith enfawr ar ein gallu i ymgysylltu â gwasanaethau iechyd ar-lein. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd drwy fynd i'r afael â bylchau mewn cysylltedd yn y cartref. Rydym yn deall y cyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn y pwerau datganoledig ac rydym yn croesawu'r dull a amlinellir yng Nghenhadaeth 5 y Strategaeth Ddigidol sy'n esblygu – yn enwedig sefydlu [tasglu Chwalu'r Rhwystrau](#), gan ddod ag gweithredwyr allweddol at ei gilydd i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â rhai o faterion cymhleth cysylltedd. Hoffem hefyd weld y gofynion ar gyfer pob tŷ cymdeithasol newydd yn cynnwys cysylltedd digidol da.



⁷ Gweler https://research.bangor.ac.uk/portal/files/23674796/PHW_Digital_Tech_Report2019_Cym.pdf

⁸ Hart, Julian Tudor (1971)

⁹ Canolfan Cydweithredol Cymru gyda'r Carnegie UK Trust 2018

¹⁰ Good Things Foundation (2020c)

¹¹ Canolfan Cydweithredol Cymru 2018

¹² Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2020

Mae'r bwriad i benodi Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol newydd yn gyfleoedd i bawb wireddu manteision technolegau digidol. Dylai'r corff newydd hwn fod yn esiampl i'n GIG a'n gofal cymdeithasol; gan wneud y rhaglenni, y gwefannau a'r cynhyrchion y mae'n gyfrifol amdanyn nhw'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar y defnyddiwr. Rhaid i leisiau pobl sy'n wynebu rhwystrau o ran defnyddio technolegau digidol gael eu clywed ar bob cam o'r datblygiad a'r gweithrediad.

Dylid defnyddio arbedion a wneir o ddarparu gwasanaethau'n ddigidol i wella cynhwysiant digidol a darparu cymorth digidol. Mae'n hanfodol bod arferion gwybodaeth hygyrch yn cael eu hymgorffori ar draws y GIG er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael yn hyderus ar wasanaethau iechyd a gofal ar lwyfannau digidol.

Rhaid i ni sicrhau bod pob person yng ngweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n ddi-waith ac sy'n chwilio am waith yn yr amgylchiadau economaidd anodd hyn, yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i ddatblygu'r sgiliau digidol sydd eu hangen arnynt er mwyn cymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol yn yr economi ddigidol ar ôl Covid. Trafodir hyn yn fanylach ym Mlaenoriaeth 4 ac mae'n hanfodol i'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae arfer da eisoes i adeiladu arno drwy Gymunedau Digidol Cymru - rhaglen Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant, ochr yn ochr â'r hyn y gellir ei ddysgu o'r tu allan i Gymru.¹³

Prif Ganlyniadau

- **Pob darparwr iechyd a gofal yng Nghymru yn cydnabod cynhwysiant digidol - mynediad, sgiliau a hyder - fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd.**
- **Mae angen strategaethau a chynlluniau cyflawni ar gyfer iechyd y cyhoedd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol.**
- **Darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn sicrhau bod cleifion a gofalwyr yn gallu cael gafael ar gymorth sgiliau digidol perthnasol a phriodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol Cymru yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i ddatblygu'r sgiliau digidol sydd eu hangen arnynt er mwyn cymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol yn yr economi ddigidol ar ôl Covid.**
- **Yr argymhellion yn Cynhwysiant Digidol mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru 2018 yn cael eu hailystyried a'u gweithredu'n llawn gan y cyrff priodol.**
- **Bod mynd i'r afael â chynhwysiant digidol yn ofyniad gorfodol mewn penderfyniadau buddsoddi gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Iechyd Arbennig Digidol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a darparwyr gofal cymdeithasol.**



Blaenoriaeth 3

Mynd i'r afael â thlodi data fel mater allweddol

Mae tlodi data wedi'i wneud hyd yn oed yn fwy gweladwy drwy bandemig Covid-19 gan fod llawer o aelwydydd wedi cael trafferth cymryd rhan lawn yn y byd ar-lein, oherwydd cost data a dyfeisiau. Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, mae'r pandemig wedi amlygu straeon am deuluoedd yn gorfod dewis rhwng data neu fwyd.¹⁴ Mae ymchwil newydd gan NESTA yn diffinio tlodi data fel: "yr unigolion, yr aelwydydd neu'r cymunedau hynny na all fforddio data symudol neu fand eang digonol, preifat a diogel i ddiwallu eu hanghenion hanfodol."¹⁵ Mae angen rhagor o ymchwil nawr ar effaith a graddfa tlodi data yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys deall costau tlodi data i wasanaethau cyhoeddus. Deallwn fod NESTA yn cynllunio ymchwil pellach a byddem yn croesawu unrhyw waith darganfod ychwanegol yn y maes pwysig iawn hwn.

Byddem hefyd yn croesawu'r gwaith o archwilio sut y gellid ychwanegu tlodi data a mynediad at gymorth digidol at Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) mewn ffordd fesuradwy. Credwn yn gryf fod angen cydnabod mynediad i'r rhyngwrwd fel cyfleustod hanfodol ac rydym eisiau gweld sectorau'n cydweithio i wireddu hyn.

Rydym yn deall cymhlethdod y mater hwn, ond mae pandemig Covid-19 wedi gwthio hyn i frig yr agenda wleidyddol ar draws y byd a chredwn fod pethau i'w dysgu gan wledydd eraill. Y Ffindir, er enghraifft, oedd y wlad gyntaf yn y byd i wneud mynediad band eang yn hawl gyfreithiol dros ddeng mlynedd yn ôl ac yn 2016 datganodd y Cenhedloedd Unedig fod mynediad i'r rhyngwrwd yn hawl ddynol. Byddem yn awyddus i gefnogi unrhyw ymchwil rhyngwladol i'r maes hwn.

Hoffem weld dull cydgysylltiedig ar draws sectorau sy'n cymryd camau i hyrwyddo datblygiad atebion cynaliadwy a chyd-gynhyrchu i dlodi data.¹⁶ Gallai'r rhain gynnwys atebion sy'n annog diwylliant o rannu ac undod (fel rhoi data a rhannu WiFi), yn ogystal â thariffau cymdeithasol, rhagnodi cymdeithasol, ac ymestyn WiFi cyhoeddus ledled Cymru.

Rydym eisiau gweld y dull hwn yn cael ei ymestyn i bob polisi a menter gwrthdlodi, y dylid disgwyl iddyn nhw hefyd gydnabod a mynd i'r afael â thlodi data. Mae darpariaeth WiFi cyhoeddus rhad ac am ddim ochr yn ochr â chymorth yn y gymuned i ddefnyddio'r rhyngwrwd yn ddiogel yn hanfodol i'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gynhwysiant digidol.¹⁷ Bydd angen gweithredu ar bob lefel ac ar draws pob sector.



¹⁴ NESTA 2020

¹⁵ NESTA 2020

¹⁶ Good Things Foundation (2020b)

¹⁷ Good Things Foundation (2020b)

Hoffem weld a oes gwersi i'w dysgu gan *Connecting Scotland*; partneriaeth rhwng Llywodraeth yr Alban, Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban a llywodraeth leol.¹⁸ Gwnaed buddsoddiad ariannol sylweddol gan Lywodraeth yr Alban i'r dull cydgysylltiedig hwn ar draws asiantaethau gan ddod â chyfarpar, cysylltedd, data a chymorth sgiliau parhaus at ei gilydd mewn un fenter. Mae rhywfaint o debygrwydd â Chymunedau Digidol Cymru Llywodraeth Cymru: Rhaglen Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant, ond mae lefel y buddsoddiad ariannol yn yr Alban yn sylweddol uwch ac mae'r fenter wedi'i thargedu'n uniongyrchol at aelwydydd incwm isel heb ryngwyd fforddiadwy dibynadwy, yn hytrach na chylch gwaith ehangach Cymunedau Digidol Cymru.

Prif Ganlyniadau

- Cydnabod bod mynediad i'r rhyngwyd yn gyfleustod hanfodol yng Nghymru.
- Darpariaeth gyhoeddus am ddim o WiFi a chymorth yn y gymuned ar gyfer cynhwysiant digidol ar draws pob rhan o Gymru.
- Cydweithredu traws-sector yn digwydd i ymchwilio a dylunio atebion cynaliadwy i dlodi data.
- Archwilio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i weld sut y gallai fod yn bosibl cynnwys tlodi data a chymorth digidol mewn ffordd fesuradwy.



¹⁸ Connecting Scotland 2020

Blaenoriaeth 4

Blaenoriaethu sgiliau digidol yn yr economi ar ôl Covid

Rhagwelir y bydd diweithdra'n cyrraedd 2.6m ledled y DU ganol 2021.¹⁹ Yng Nghymru, bydd sgiliau digidol yn y gweithlu yn hanfodol ar gyfer adferiad yr economi. Hyd yn oed cyn Covid-19, amcangyfrifir bod angen rhywfaint o sgiliau digidol ar 82% o swyddi'r DU.²⁰

Fodd bynnag, mae gormod o bobl yn ein cymunedau a'n gweithlu sydd heb y sgiliau hyn o hyd.²¹ Mae hyn yn ymwneud â'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ddod o hyd i waith, chwilio a gwneud cais amdano, ac i'w ddefnyddio mewn swyddi a gweithleoedd bob dydd. Hyd yn oed lle mae pobl ar-lein a sgiliau cyfyngedig ganddyn nhw, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau craidd sydd eu hangen i gymryd rhan yn ein heconomi sy'n newid.

Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r sectorau ehangach, bydd y Gynghrair yn ymdrechu i sicrhau bod yr agenda sgiliau digidol yn cael ei thargedu at y bobl a'r lleoedd hynny sydd fwyaf tebygol o fod heb sgiliau digidol sylfaenol. Er mwyn gwneud hyn, yn gyntaf mae angen i ni ddeall sgiliau digidol gweithlu Cymru. Nid yw hyn yn golygu dadansoddi data a chymhwysedd digidol cymhleth – ond heb y sgiliau digidol sylfaenol craidd ni fydd ein gweithlu'n gallu goroesi a ffynnu yn ein heconomi sy'n newid.

Rhaid i unrhyw ymyriad gyrraedd pobl ddi-waith a'r rhai sydd mewn gwaith sydd angen iddyn nhw uwchsgilio neu ailhyfforddi er mwyn cadw i fyny â newid. Yn ein rhanbarthau dinesig mae angen sgiliau digidol sylfaenol yn y gweithlu yn ogystal â seilwaith digidol, arloesedd a sgiliau arbenigol.

Mae Covid-19 hefyd wedi cael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc Cymru a'u haddysg. Mae cost dyfeisiau a chysylltedd wedi rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd, ac ar ysgolion, gan greu rhwystrau newydd i ddisgyblion o gefndiroedd tlotach.²² Yn ogystal, mae Covid-19 wedi amlygu'r bwlch mewn cynhwysiant digidol i bobl anabl, ac mae angen cymorth wedi'i dargedu er mwyn sicrhau bod pobl ifanc anabl yn gallu cael mynediad i'w haddysg.

Prif Ganlyniadau

- **Hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol priodol a pharhaus a meithrin hyder ar gael i bob oedolyn sy'n chwilio am waith neu sydd mewn perygl o gael ei ddiswyddo. Mae angen i hyn fod wyneb yn wyneb lle bo angen; nid yw'n ddigon i roi adnoddau dysgu ar-lein a thybio y gall ac y bydd y bobl sydd eu hangen yn gallu cael gafael arnyn nhw ac yn eu defnyddio.**
- **Cynnal archwiliad sgiliau digidol o weithwyr ledled Cymru.**
- **Busnesau a chyflogwyr ledled Cymru yn hyfforddi ac yn uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau digidol craidd.**
- **Strategaethau rhanbarthau dinesig yn ystyried sut y gallan nhw hyrwyddo a buddsoddi mewn sgiliau digidol sylfaenol.**

¹⁹ Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol 2020

²⁰ Crybwyllwyd yn Good Things Foundation (2020b)

²¹ Lloyds Consumer Digital Index 2020

²² Teach First 2020



Blaenoriaeth 5

Gosod safon byw digidol gofynnol newydd a mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu

Mae cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu yn hanfodol ar gyfer yr holl gynigion rydym wedi'u hargymell. Rhaid clywed llais pobl sydd â phrofiad byw o allgáu digidol wrth gynllunio, datblygu a gwerthuso polisiâu a rhaglenni. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i wasanaethau cyhoeddus fod yn wirioneddol gynhwysol, ac i fentrau polisi cynhwysiant digidol gael effaith go iawn.²³


Wrth gynllunio a darparu gwasanaethau hoffem weld pob sector yn mabwysiadu dulliau cyd-gynhyrchu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. Mae angen ymdrech arbennig i ymgysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a mudwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; yn ogystal â phobl hŷn a'r rhai sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd cyfyngol sy'n wynebu mwy o risg o allgáu digidol a chymdeithasol.

Mae technoleg ddigidol yn ein galluogi i greu llwyfan lle mae pob llais yn ein cymunedau'n cael ei glywed. Rydym yn cefnogi galwadau am Gynulliad Dinasyddion Cymru a arweinir gan faterion digidol. Gall democratiaeth ddigidol gyrraedd lleisiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ond dim ond pan gaiff cynhwysiant digidol ei gefnogi'n weithredol ac adnoddau eu darparu. Mae gwersi i'w dysgu o arfer gorau ar draws y byd sydd - ynghyd â chyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu - yn gallu creu democratiaeth ddigidol fwy cynhwysol yng Nghymru.

Mae cyfle i ddefnyddio offer cyd-ddylunio ac ymgysylltu â dinasyddion a dull traws-sector o arwain y byd o ran sefydlu 'Safon Byw Digidol Gofynnol i Gymru' - safon gytunedig o'r hyn y dylid ei gynnwys yn ddigidol yn y Gymru fodern, wedi'i halinio â'n Nodau Llesiant cenedlaethol. Dylai safon o'r fath gynnwys dyfeisiau a data, ochr yn ochr â sgiliau, galluoedd a chymorth.²⁴ Mae hwn yn faes cymhleth y mae angen ei ystyried ymhellach, ond mae'n uchelgais yr hoffai'r Gynghair ei weld yn cael ei gyflawni.

Prif Ganlyniadau

- **Pob sector yn gwneud mwy o ymdrech i ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli sy'n wynebu allgáu digidol.**
- **Y profiad byw o allgáu digidol yn cael ei glywed mewn prosesau llunio polisiâu.**
- **Cyd-gynhyrchu â dinasyddion o ran cynllunio polisi a gweithredu gwasanaethau wedi'i ymgorffori ar draws yr holl wasanaethau a sectorau.**
- **Ymchwil wedi'i gyd-gynhyrchu i archwilio 'safon byw digidol gofynnol i Gymru' yn cael ei gynnal gan gyrff allweddol sydd â'r pŵer i sicrhau newid.**
- **Sefydlu Cynulliad Dinasyddion Cymru sy'n cefnogi cynhwysiant digidol ac sy'n gynhwysol ei ddyluniad.**



²³ Carnegie UK Trust 2020

²⁴ Gweler Carnegie UK Trust 2020, Good Things Foundation (2020b)

Atodiad: Aelodau presennol Cynghair Cynhwysiant Digidol Cymru

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Anabledd Cymru

Antur Teifi

Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

BT Cymru

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Canolfan Cydweithredol Cymru

Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

Canolfan Hygyrchedd Anabledd

Care & Repair

Cartrefi Cymru

CAST

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Confederasiwn GIG Cymru

Cyngor ar Bopeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili / ADSS

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Sir Mynwy

Cymdeithas Dai Clwyd Alyn

Cymunedau Digidol Cymru

Dŵr Cymru

Go Compare

Gofal Cymdeithasol Cymru

Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Innovate Trust

Internet 4 Everyone

Microsoft

PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir

Benfro) ar ran Cymorth Trydydd Sector Cymru

Prifysgol Abertawe

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

RNIB

Sefydliad Good Things

Swyddfa Archwilio Cymru

Tai Cymunedol Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Ymgynghorydd Cynhwysiant Digidol



Os hoffech chi neu eich sefydliad wybod mwy amdanom ni ac ymuno â'r mudiad cynhwysiant digidol yng Nghymru, cysylltwch â ni ar diaw@wales.coop

Mae Cynghair Cynhwysiant Digidol Cymru yn ddiolchgar am y gefnogaeth a roddwyd gan Cymunedau Digidol Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru wrth baratoi a chynhyrchu'r papur hwn.

Cyfeiriadau

Mae'r papur hwn wedi tynnu ar y gwaith helaeth ar gynhwysiant digidol yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys:

[Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2019/20\)](#)

Banc Lloyds (2020), [Lloyds Bank Consumer Digital Index 2020](#).

Canolfan Cydweithredol Cymru gyda'r Carnegie UK Trust (2018), [Cynhwysiant Digidol mewn Iechyd a Gofal yng Nghymru](#).

Carnegie UK Trust (2020), [Learning from Lockdown: 12 Steps to Eliminate Digital Exclusion](#)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020), [Gadael Neb ar Ôl: Gweithredu ar gyfer Adferiad o blaid pobl Hŷn](#).

[Connecting Scotland \(2020\)](#)

Sefydliad Good Things (2020a), [Digital Nation 2020](#)

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru (2019), [Canllawiau Cynhwysiant Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru](#)

Hart JT (1971) The Inverse Care Law. The Lancet 297, Chwefror 27. Tt 405-12 [https://doi.org/10.1016/S0140-6736\(71\)92410-X](https://doi.org/10.1016/S0140-6736(71)92410-X)

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) [Iechyd y Boblogaeth yn yr Oes Ddigidol](#)

Llywodraeth Cymru (2020), [Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru Ddigidol Hyderus](#)

Llywodraeth Cymru (2021), [Strategaeth Ddigidol i Gymru: Cenhadaeth 4 - Cynhwysiant Digidol](#).

NESTA (2020), [What is Data Poverty?](#)

Ofcom (2020), [Adults' Media Use and Attitudes Report](#).

Open Democracy (2017), [Does Digital Democracy improve Democracy?](#)

Sefydliad Good Things (2020b), [Blueprint for a 100% Digitally Included UK](#).

Sefydliad Good Things (2020c), [Widening Digital Participation in Health and Care: Lessons learned](#).

Teach First (2020), [84% of schools with the poorest children lack devices to ensure their pupils can study at home if self-isolating](#).

Williams, K (2020), [Cwricwlwm Cymru yn rhoi'r dinesydd yn gyntaf - Kirsty Williams](#).

Yates, S (2020), [New Analysis of Ofcom 2020 data](#). Comisiynydd gan Sefydliad Good Things.





Canolfan Cydweithredol Cymru Cyf, Y Borth, 13 Ffordd Beddau, Caerffili, CF83 2AX

Rhif ffôn: 0300 111 5050 E-bost: info@wales.coop Gwefan: www.cymru.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestrdedig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg. Mae ffurfiau eraill, megis mewn print bras neu braille, ar gael ar gais.